

# Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Ile rhoddwyd rhybudd)

Refresh Skin Studio

Dyddiad yr arolygiad: 8 Ionawr  
2018

Dyddiad cyhoeddi: 9 Ebrill 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)**  
**Ffacs: 0300 062 8387**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf .....	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	16
4.	Beth nesaf? .....	18
5.	Atodiad A- Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	20
	Appendix A – Summary of concerns resolved during the inspection .....	21
	Atodiad B- Cynllun gwella.....	22

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad â rhybudd o Refresh Skin Studio ar 8 Ionawr 2018.

Roedd ein tîm, ar gyfer yr arolygiad, yn cynnwys dau arolygydd AGIC, un ohonynt yn arwain yr arolygiad.

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, canfuom fod Refresh Skin Studio yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth effeithiol i'w cleifion. Roedd systemau ar waith i sicrhau bod peiriannau laser yn cael eu cynnal a'u cadw yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr a bod gan y gweithredwr hyfforddiant cyfredol. Roedd hyn i'w galluogi i ddefnyddio'r peiriannau'n ddiogel.

Roedd yr amgylchedd yn lân ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac roedd hyn yn cael ei ategu gan adborth cleifion y gwnaeth AGIC ei dderbyn o holiaduron.

Roedd cofnodion cleifion yn gynhwysfawr ac yn cael eu cadw'n ddiogel.

Nid yw'r arolygiad wedi arwain at unrhyw argymhellion i'r gwasanaeth eu gweithredu.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd gwybodaeth fanwl i gleifion cyn y driniaeth a chynghor ar ôl triniaeth
- Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion, gan geisio adborth i wella gwasanaethau lle bo hynny'n berthnasol
- Roedd y gwasanaeth yn lân, yn daclus ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda
- Roedd contractau ar waith i sicrhau bod y peiriannau laser yn cael eu gwasanaethu yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr
- Roedd cofnodion cleifion (papur ac electronig) yn cael eu storio'n ddiogel

Ni wnaethom nodi unrhyw broblemau o ran y gwasanaeth i'w gwella. Ni wnaethom nodi unrhyw feysydd nad oeddent yn cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.

### 3. Yr hyn a ganfuom

#### Cefndir y gwasanaeth

Mae Refresh Skin Studio wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol yn 4 Plymouth Road, Penarth, Bro Morgannwg, CF64 3DH.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru'n gyntaf gydag AGIC ar 4 Hydref 2012.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys un gweithredwr laser sy'n cael ei gefnogi gan nyrsys deintyddol pan fo angen.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau, sy'n cynnwys y canlynol:

Laser pwls dei Regenlite ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Lleihau crychau
- Acne vulgaris llidiol
- Triniaeth fasgwlaidd
- Creithiau acne
- Triniaeth isbwpwprig o acne rhosynnaidd/telangiectasia'r wyneb

Laser Fusion SLR ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Adfywio'r croen



## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Canfuom fod cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu, ac roedd y staff yn ymroddedig i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion.

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth fanwl cyn ac ar ôl triniaeth i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth.

Roedd gan y gwasanaeth brosesau priodol ar waith i sicrhau bod ymgynghoriadau â chleifion yn cael eu cynnal mewn modd urddasol a phreifat.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael safbwyntiau cleifion ynghylch y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o chwe holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

'Triniaeth ardderchog o'm hapwyntiad cyntaf i'm holaf. Bob amser yn llawn gwybodaeth, croesawgar a phroffesiynol'

*"Staff calonogol iawn a dim pwysau i gael triniaethau ychwanegol sy'n creu profiad hamddenol a chadarnhaol"*

"Mae ansawdd y driniaeth sy'n cael ei darparu gan Refresh Skin Studio wedi creu argraff fawr arnaf. Mae'r staff i gyd yn hynod broffesiynol, ond hefyd yn groesawgar, yn gyfeillgar ac yn sicrhau eich bod yn dawel eich meddwl. Mae'r holl weithdrefnau'n cael eu hegluro'n llawn [ac] mae amgylchiadau personol y cleient yn cael eu hystyried...'

## Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom y gofynnwyd i gleifion lenwi ffurflen hanes meddygol cyn y driniaeth gychwynnol, a oedd yn cael ei llofnodi gan y claf a'r gweithredwr. Mae hanes meddygol/cyflwr/cyflyrau meddygol cleifion yn cael eu gwirio ym mhob apwyntiad i sicrhau bod y driniaeth yn cael ei darparu mewn modd diogel a'i chofnodi ar gofnod y claf.

### **Urddas a pharch**

Cyn unrhyw driniaeth, cynhelir trafodaethau â chleifion i sicrhau eu bod yn deall sut fydd y driniaeth yn cael ei chyflawni. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y math o ddiad y gallai claf ystyried ei wisgo a/neu os bydd angen tynnu diad.

Dywedodd y staff wrthym fod y gwasanaeth yn defnyddio hebryngwyr ar gyfer rhai triniaethau ac mae'r ystafell ar gau pan fydd triniaethau'n cael eu cynnal. Mae lleoliad yr ystafell driniaeth yn sicrhau na all unrhyw aelod o'r cyhoedd gael mynediad ati heb gael ei hebrwng gan aelod o staff. Roedd gan yr eiddo ddigon o le i gynnal sgysiau yn breifat ac i wybodaeth bersonol gael ei thrafod heb gael ei chlywed.

### **Gwybodaeth a chydysniad cleifion**

Mae pob claf yn derbyn ymgynghoriad cyn dechrau unrhyw driniaeth fel y gall y broses a'r canlyniad/canlyniadau gael eu hesbonio'n llawn. Yn ogystal, mae risgiau ac ôl-ofal hefyd yn cael eu trafod cyn y gofynnir i glaf lofnodi'r ffurflen ganiatâd yn cadarnhau ei ddealltwriaeth a'i gytundeb i driniaeth. Gwelsom dystiolaeth o ffurflenni caniatâd wedi'u cwblhau a oedd yn dangos tystiolaeth o'r adrannau wedi'u ticio, gan sicrhau bod pob maes wedi'i gynnwys a bod llofnodion cleifion a staff yn amlwg.

Gwelsom fod y caniatâd i driniaeth yn cael ei gofnodi ar gofnod y claf ym mhob triniaeth.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Roedd canllaw i gleifion ar gael a oedd yn darparu gwybodaeth ynglŷn â'r gwasanaeth ac roedd yn cynnwys y meysydd sy'n ofynnol o dan y rheoliadau.

Cafodd datganiad o ddiben ei ddarparu <sup>1</sup> ac wrth adolygu'r ddogfen, canfuom ei bod yn cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol o dan y rheoliadau.

### **Cynllunio a darparu gofal**

Derbyniodd pob claf apwyntiad ymgynghori cyn dechrau unrhyw driniaeth. Gwelsom fod canlyniad yr asesiad hwn wedi'i ddogfennu a'i ddefnyddio i gynorthwyo wrth gynllunio triniaeth.

Canfuom fod nodiadau cleifion manwl, unigol ar gael a oedd yn cynnwys manylion perthnasol. Roedd cofrestr driniaeth gyffredinol yn cael ei chadw, a oedd yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol.

### **Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Roedd yr ystafell driniaeth a oedd yn cynnwys y peiriannau laser wedi ei lleoli ar drydydd llawr yr adeilad ac roedd mynediad iddi i fyny grisiau. Roedd canllawiau yn eu lle i roi cymorth i gleifion pe bai hyn yn ofynnol.

### **Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth**

Mae gan Refresh Skin Studio systemau ar waith i gael adborth gan gleifion. Er enghraifft, mae gan wefan y gwasanaeth gyfleuster i gleifion gyflwyno adborth. Gellir hefyd gwblhau holiaduron papur ar y safle ac mae holiaduron yn cael eu e-bostio at gleifion yn dilyn triniaethau.

Mae dadansoddiad rheolaidd o unrhyw adborth yn cael ei gynnal a bydd staff yn ymdrin ag unrhyw broblemau gyda chleifion. Caiff tystebau eu cyhoeddi ar y wefan a gall cleifion ofyn am ganlyniadau adborth cleifion gan staff.

---

<sup>1</sup>Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith bod gan bob darparwr gwasanaeth Ddatganiad o Ddiben a dylai gynnwys manylion penodol am y gwasanaeth, pa driniaethau sy'n cael eu darparu, i bwy (oed), gan bwy, ac unrhyw offer sy'n cael eu defnyddio. Am ragor o wybodaeth ewch i [hiw.org.uk](http://hiw.org.uk)

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Roedd systemau ar waith a oedd yn sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl. Canfuom fod y peiriannau laser yn cael eu cynnal a'u cadw yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwyr ac roedd gan y staff hyfforddiant cyfredol ar ddefnyddio'r peiriannau.

Roedd yr ystafell driniaeth yn amlwg yn lân ac yn daclus ac roedd y staff yn ymwybodol o'r tasgau glanhau sy'n ofynnol bob dydd ac yn wythnosol er mwyn sicrhau bod safonau'n parhau i fod yn uchel.

Canfuom fod y gwasanaeth wedi cymryd camau i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.

### Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Canfuom fod trefniadau ar waith i warchod diogelwch a lles staff sy'n gweithio yn yr adeilad, a phobl sy'n ymweld.

Gwnaethom edrych ar ddetholiad o drefniadau cynnal a chadw ar gyfer yr eiddo. Gwelsom dystiolaeth bod Profion Dyfeisiau Cludadwy yn gyfredol, i helpu i sicrhau bod offer trydanol bach yn addas at eu diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Darparwyd ardystiad i ddangos diogelwch nwy a bod gwiriadau gwifrau trydanol bob pum mlynedd ar gyfer yr adeilad yn gyfredol.

Gwnaethom edrych ar rai o'r trefniadau sydd ar waith o ran diogelwch tân. Roedd risgiau tân wedi cael eu hasesu trwy adroddiad yr <sup>2</sup> Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Laserau, heb i unrhyw gamau gweithredu gael eu nodi. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig eu bod yn cynnal hyfforddiant diogelwch tân blynyddol. Dangosodd labeli gwasanaethu ar y diffoddwyr tân eu bod yn cael eu gwasanaethu'n flynyddol, ac roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân. Dywedwyd wrthym nad oes unrhyw ymarferion tân yn cael eu cynnal, ond bod staff yn ymwybodol o'r hyn i'w wneud pe bai argyfwng.

Hyfforddwyd staff mewn cymorth cyntaf a dadebru cardio-pwlmonaidd. Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael ac roedd gwiriadau misol yn cael eu cynnal i sicrhau bod y deunyddiau yn ddiogel ac yn addas at eu diben.

### **Atal a rheoli heintiau a dadheintio**

Gwelsom fod yr adeilad yn weledol lân a thaclus. Ni chafodd unrhyw bryderon eu lleisio gan gleifion ynghylch glendid y lleoliad. Yn ogystal, cytunodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn gryf bod yr amgylchedd yn lân ac yn daclus.

Gwnaeth y staff ddisgrifio trefniadau rheoli heintiau'r gwasanaeth yn fanwl, ac roeddent yr un fath â'r rhai a oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer y gwasanaethau deintyddol a oedd hefyd yn cael eu darparu yn yr un adeilad. Er nad oedd y protocol glanhau yn cael ei arddangos yn yr ystafell driniaeth laser, roedd staff yn gallu cadarnhau'r tasgau a oedd yn cael eu cynnal bob dydd ac yn wythnosol, a oedd yn cynnwys hylendid dwylo a glanhau'r offer a'r ardal driniaeth rhwng cleifion.

Canfuom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer storio a chasglu gwastraff clinigol.

### **Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed**

---

<sup>2</sup> Mae'r Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Laserau yn rhywun sy'n meddu ar sgiliau, gwybodaeth a phrofiad digonol o faterion sy'n ymwneud â diogelwch laserau, ac yn gallu darparu cymorth proffesiynol priodol wrth bennu peryglon, wrth asesu risgiau, ac wrth gynnal unrhyw reolaethau a gweithdrefnau amddiffyn angenrheidiol. Mae llawer o Ymgynghorwyr Amddiffyn rhag Laserau hefyd yn darparu hyfforddiant mewn diogelwch laser.

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion o dan 18 oed am y triniaethau hynny sy'n cael eu nodi ar y dystysgrif gofrestru yn unig. Dywedodd staff wrthym nad oedd unrhyw gleifion dan 18 oed wedi cael eu trin yn y gwasanaeth ers 2014. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth o'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu diogelu, gan gynnwys sut y caiff triniaethau eu hesbonio i blant a'r weithdrefn ganiatâd cyn unrhyw driniaeth.

Roedd polisi ar gyfer diogelu plant ac oedolion ar waith a oedd yn cynnwys gweithdrefnau ysgrifenedig clir i staff eu dilyn pe bai pryderon diogelu yn digwydd.

Disgrifiodd y staff sut y byddent yn delio ag unrhyw faterion diogelu. Roedd y rheolwr cofrestredig wedi'i hyfforddi i amddiffyn oedolion a phlant sy'n agored i niwed.

### **Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**

Gwelsom dystiolaeth bod y peiriannau laser wedi cael eu graddnodi'n rheolaidd<sup>3</sup> a'u gwasanaethu yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwyr.

Gwelsom fod protocolau triniaeth ar waith ar gyfer y peiriannau laser a chafodd y rhain eu goruchwyllo gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Gwelsom fod cytundeb ar waith gydag Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Laserau ac roedd rheolau lleol<sup>4</sup> a oedd yn manylu ar weithrediad diogel y peiriannau. Cafodd y rheolau hyn eu hadolygu gan yr Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Laserau a gwelsom eu bod wedi eu llofnodi gan staff a oedd yn gweithredu'r peiriannau laser a oedd yn dangos eu hymwybyddiaeth a'u cytundeb i ddilyn y rheolau hyn.

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

---

<sup>3</sup> Gall graddnodi rheolaidd helpu i sicrhau bod perfformiad y peiriant laser yn aros yn gyson dros amser, gan sicrhau'r perfformiad ac ansawdd cynnyrch gorau posibl.

<sup>4</sup> Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel a bod yn berthnasol i'r gwaith o reoli peiriannau laser, systemau golau pwls dwys a deuodau allyrru golau yn ddiogel o ddydd i ddydd. [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/474136/Laser\\_guidance\\_Oct\\_2015.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf)

Ar adeg ein hymweliad, nid oedd tystysgrif i ddangos bod y gweithredwr laser wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth<sup>5</sup>. Dywedwyd wrthym yn ystod yr ymweliad y byddai hyn yn cael sylw a darparwyd tystysgrif yn fuan ar ôl yr ymweliad â thystiolaeth bod yr hyfforddiant wedi'i gwblhau.

Gwelsom fod offer amddiffyn llygad ar gael i gleifion a gweithredwr y peiriannau laser. Roedd yr offer amddiffyn llygaid yn mewn cyflwr da yn ôl pob golwg a gwnaeth y rheolwr cofrestredig gadarnhau bod y sbectolau'n cael eu gwirio'n rheolaidd am unrhyw ddifrod.

Roedd arwydd ar y tu allan i'r ystafell driniaeth a oedd yn dangos pan oedd y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio. Dywedwyd wrthym fod y peiriannau'n cael eu cadw'n ddiogel bob amser. Mae'r allweddi cychwyn ar gyfer y ddau beiriant yn cael eu cadw'n ddiogel pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, gan atal mynediad anawdurdodedig.

Gwnaethom adolygu'r dogfennau sy'n ymwneud â'r asesiad risg amgylcheddol. Gwelsom fod yr Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Laserau wedi cwblhau asesiad risg wedi'i ddiweddarau ac nad oedd unrhyw welliannau wedi'u nodi.

### **Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Canfuom dystiolaeth bod systemau addas ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu yn rheolaidd. Er enghraifft, roedd y gwasanaeth yn gofyn am farn cleifion yn rheolaidd fel ffordd o lywio gofal a chynnal archwiliadau o gofnodion i sicrhau cysondeb gwybodaeth a risgiau a aseswyd mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch.

### **Rheoli cofnodion**

Canfuom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel, mewn nodiadau papur ac electronig. Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a chanfod dystiolaeth fod nodiadau cleifion yn cael eu cynnal i safon uchel.

---

<sup>5</sup> Bwriedir hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ar gyfer gweithredwyr sy'n defnyddio laserau a systemau golau pwls dwys ar gyfer triniaethau croen amrywiol. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau ar ddefnyddio laserau a systemau golau pwls dwys yn ddiogel.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun mewn perthynas â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.*

Canfuom fod gan Refresh Skin Studio dîm bach ond effeithiol ar waith. Cefnogwyd hyn gan strwythur rheoli lle'r oedd staff yn deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau'n glir.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod unrhyw sylwadau neu gwynion ffurfiol neu anffurfiol yn cael eu cofnodi a'u hateb mewn modd amserol.

Roedd systemau sefydledig ar waith i ymgymryd â gwiriadau cyn-gyflogaeth a rhoi cymorth i staff gadw eu sgiliau a'u gwybodaeth yn gyfredol.

### **Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**

Mae Refresh Studio Skin yn eiddo i, ac yn cael ei reoli gan, y rheolwr cofrestredig. Y rheolwr cofrestredig yw'r unig weithredwr laser.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth nifer o bolisiâu ar waith a oedd yn cael eu diweddarau'n flynyddol. Roedd gan y dogfennau ddyddiadau adolygu a chyhoeddi ac roedd tystiolaeth i ddangos bod staff yn llofnodi polisiâu a gweithdrefnau i nodi eu bod wedi eu darllen ac yn deall eu swyddogaeth a'u cyfrifoldebau, ac rydym yn cydnabod hyn fel arfer da.

Roedd yr holl bolisiâu a gweithdrefnau yn cael eu cadw mewn 'llawlyfr' â mynegai fel y gallai staff fynd atynt. Mae unrhyw ddiweddariadau yn cael eu cyfathrebu ar lafar i staff, ac mae'n ofynnol iddynt eu darllen a'u llofnodi. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cael gwybod am yr arferion gwaith diweddaraf.



Dywedwyd wrthym fod y staff yn cwrdd bob dydd i drafod a chynllunio'r diwrnod i ddod, sy'n broses lafar anffurfiol. Mae cyfarfodydd tîm ffurfiol yn cael eu cynnal bob mis ac yn cael eu cofnodi.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyfredol ar waith.

### **Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau**

Gwelsom fod gan y gwasanaeth bolisi cwynion ar waith a'i fod yn darparu manylion cyswllt cywir AGIC yn unol â'r gofynion rheoleiddiol. Roedd manylion am sut y gall cleifion gael y weithdrefn gwynion hefyd wedi'u cynnwys yn y datganiad o ddiben.

Roedd gan y gwasanaeth system ar waith i gofnodi cwynion a phryderon ffurfiol ac anffurfiol. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw gwynion wedi cael eu derbyn.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym ei fod yn gwybod sut i wneud cwyn os byddai angen gwneud hynny.

### **Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**

Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad, rydym wedi derbyn tystiolaeth bod y gweithredwr wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hefyd wedi cwblhau hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r laserau yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwyr.

### **Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**

Er bod tîm staff sefydledig, dim ond y rheolwr cofrestredig a oedd yn gweithredu'r peiriannau laser i gyflawni triniaethau. Defnyddiwyd staff ychwanegol i gynorthwyo a/neu hebrwng cleifion yn ôl yr angen.

Dywedwyd wrthym am yr arferion recriwtio a chyflogaeth sydd ar waith i sicrhau bod gwiriadau cyflogaeth briodol yn cael eu cynnal mewn perthynas â staff newydd, a fyddai'n cynnwys gwiriad y gwasanaeth datgelu a gwahardd.

Mae rhaglen ymsefydlu ar waith i gefnogi newydd-ddyfodiaid i'r swydd sy'n cael ei chofnodi.

Dywedwyd wrthym fod rhaglen o arfarniadau blynyddol ar waith ar gyfer staff.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bôn yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.



## 5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael tua 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Diwallu'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

## Atodiad B – Cynllun gwella

**Gwasanaeth: Refresh Skin Studio**

**Dyddiad yr arolygiad: 8 Ionawr 2018**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Ni nodwyd unrhyw welliannau.				
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>				
Ni nodwyd unrhyw welliannau.				
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
Ni nodwyd unrhyw welliannau.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras): Julie Johnson**

**Swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 7 Chwefror 2018**